


Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

ECAD5008C – MDaPh DYNIAETHAU

Sesiwn 3

www.athrofa.cymru

Yn y sesiwn hon byddwn yn:

- Esbonio pwysigrwydd ymholiad wrth addysgu AG.
- Cynllunio ar gyfer ymholiad yn AG (CA2)
- Dewis ac esbonio sut mae strategaethau AagD yn helpu plant i wneud cynnydd yn y wers AG (Dyniaethau).

https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/humanities


Yr Hyn sy'n Bwysig mewn Dyniaethau

Mae'r datganiadau yr hyn sy'n bwysig hynny yn gysylltiedig ac ni fwriedir iddynt gael eu trin ar wahân.

- Mae datblygu meddwl ymchwilgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, drostynt nhw eu hunain.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesau ffisegol a gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau moesegol a chynaliadwy.

12 egwyddor addysgeg

(Donaldson, 2015, tt.64-70)



Dysgu trwy ymholiad yn AG

- ESTYN 2018**
- *Learning processes and Pedagogies in Religious Education*



Ymholiadau AG

- Edrychwch ar y fideo ‘What is RE?’ a rhestrwch enghreifftiau o ymholiadau posibl.

https://www.youtube.com/watch?v=PUBE2MAMABU

Tasg – Ymweld â mannau addoli

- **Meddyliwch am enghreifftiau o ymholiadau posibl yn yr ardal leol.**





Enghreifftiau o ymholiadau AG

- Beth yw ystyr ‘perthyn’ mewn Cristnogaeth?
- Dathliadau: pam mae Cristnogion yn rhoi anrhegion adeg y Nadolig?
- Beth allwn ni ei ddysgu wrth ymweld ag eglwys?
- Beth yw’r Torah a pham mae’n bwysig i bobl Iddewig?
- Beth yw ystyr arwyddion a symbolau mewn crefydd?
- Beth yw’r Beibl a pham mae’n bwysig i Gristnogion?
- Sut a pham mae Hindŵiaid yn addoli gartref ac yn y mandir?
- Pam mae’r Pasg yn bwysig i Gristnogion?
- Pa grefyddau sydd wedi’u cynrychioli yn ein cymdogaeth?
- Beth allwn ni ei ddysgu wrth adeiladau crefyddol Cristnogol?
- (Gweler http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090608182316/http://standards.dfes.gov.uk/schemes2/religion/?view=get)

https://www.natre.org.uk/primary/good-learning-in-re-films/

Mae'r weithgaredd '**llwybr myfyrio/cydwybod**' yn defnyddio strategaeth llythrennedd.

Beth fyddech chi wedi ei wneud pe byddech wedi cael gorchymyn fel milwr i groeshoelio Crist?

Mae'r weithgaredd yn herio dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth Addysg Grefyddol mewn cyd-destun real, gan helpu nhw i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol** a **gwybodus.**

https://youtu.be/t5dIBTz-gao

Sut y byddech yn cynllunio ar gyfer hyn?

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

APLP
PDPA

Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro		Dosbarth:	
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Addysg Grefyddol (Dyniaethau)	Dyddiad:	24/10/19
Ffocws Gwers:	Mannau addoli yn ein cymuned		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	**Sgiliau:** Ymdrin â chwestiynau sylfaenol Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol Mynegi ymateb personol **Ystod:** Profiad dynol: Perthyn Chwilio am ystyr: gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol / ysbrydol (Wedi'u cymryd o'r Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer Addysg Grefyddol: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/b4/66/5e/f7/c3cc46038fa36f9b50638627/fframwaith-enghreifftiol-cenedlaethol-ar-gyfer-cyflwyno-addysg-grefyddol.pdf)		
Cysylltiadau			

Beth am Nodau Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant?

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol: 1. Defnyddio ystod o ffynonellau i ddysgu pam mae addoldai yn bwysig 2. Deall sut mae addoldai yn cael eu defnyddio yn y gymuned leol 3. Defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn gywir

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Rwy'n gallu / Erbyn diwedd y wers byddaf yn gallu... 1. Defnyddio llyfrau, taflenni a gwefannau a roddwyd i mi gan fy athro i egluro pam mae addoldai yn bwysig. 2. Disgrifio sut mae addoldai yn cael eu defnyddio yn fy nghymuned leol. 3. Defnyddio geiriau crefyddol wrth siarad neu ysgrifennu am addoldai.	

Cyfeiriadau

- Estyn (2018) *Addysg Grefyddol CA2 A 3.* Caerdydd: Estyn. (copi ar Moodle)
- https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales-2008/key-stages-2-to-4/national-exemplar-framework-for-religious-education-for-3-to-19-year-olds (copi ar Moodle)
- https://www.natre.org.uk/
- https://www.reonline.org.uk/